

Cwrs Sylfaenol Ceredigion Uned Pedwar Deg Naw

*Llongyfarch a derbyn llongyfarchiadau
Congratulating and receiving congratulations*

Llongyfarchiadau	ar eich llwyddiant ar ennill y wobor ar basio'r prawf gyrru ar basio'r arholiad ar enedigaeth eich merch / bachgen ar eich dyweddïad ar eich swydd newydd
------------------	---

Aeth popeth yn dda iawn
Bues i'n lwcus iawn
(D)yn ni wrth ein bodd

(W)newch chi longyfarch Ffred drosta i?
(W)newch chi ei longyfarch e drosta i?
(W)nei di longyfarch Sandra drosta i?
(W)nei di ei llongyfarch hi drosta i?



Deialog

Myfanwy: **Llongyfarchiadau Ffred. (D)ych chi wedi pasio Lefel 2.**
Ffred: **Ydw i wir? Do'n i ddim yn disgwyl llwyddo.**
Myfanwy: **Chi o(e)dd y gorau yn y dosbarth.**
Ffred: **Ie? Bydd rhaid i ni ddathlu yn y dosbarth.**
Myfanwy: **Bydd, ond cofiwch, nid ennill tystysgrif sy'n bwysig.**
Ffred: **Nage, (d)w i'n cytuno. Rhaid siarad a defnyddio'r iaith.**

Geirfa

llongyfarchiadau	- congratulations
llwyddiant	- success
gwobor (b)	- prize
prawf gyrru	- driving test
enedigaeth (b)	- birth
dyweddïad	- engagement
dyweddïo (dyweddï-)	- to become engaged
dathlu (dathl-)	- to celebrate
tystysgrif (b)	- certificate
cytuno (cytun-)	- to agree
pwysig	- important
defnyddio (defnyddi-)	- to use

Gwaith Cartre Uned 49

Offer congratulations or sympathy to these speakers:

Mae Sandra wedi cytuno i fy mhriodi i.

Mae fy hen fam-gu wedi marw.

Roedd y cyfweliad yn llwyddiant!

Mae corgi Ffred wedi marw.

Bingo!

Cyfieithwch:

1. Congratulations on your engagement.
2. Will you congratulate her on my behalf?
3. It's necessary to speak and use the language.
4. Give them my regards.
5. I was sorry to hear about your bereavement.
6. You were the best in the class.
7. Thanks for being so kind.
8. I didn't expect to pass.

Pwyntiau i'w cofio:

1. The 'llongyfarchiadau' pattern is followed by 'ar', i.e. Congratulations **on** something.